



Mae **Die Fledermaus**, yr opera a gyfansoddwyd gan Johann Strauss II, yn cyfieithu fel 'The Bat' neu 'Yr Ystlum'. Fe'i perfformiwyd am y tro cyntaf yn y flwyddyn 1874 yn Fienna, Awstria, ac mae'n adrodd stori ddoniol am gamddealltwriaeth hunaniaeth ym mharti mygydau mawreddog y Tywysog Orlofsky.

Dyma gyfarwyddiadau ar sut i wneud mwgwd ystlum eich hun ar gyfer parti mygydau'r Tywysog Orlofsky, felly byddwch yn greadigol a mwynhewch parti personol eich hun gyda chwmni Opera Cenedlaethol Cymru.

Mwgwd ystlum!



Byddwch angen:

- Argraffydd a phapur argraffydd
- Siswrn
- Cerdyn
- Glud
- Tâp selo
- Pinnau ffelt, pensiliau neu greonau
- Unrhyw beth yr hoffech ei ddewis i addurno'ch mwgwd
- Ffon lolipop neu ddarn o lynyn



Argraffwch y ffeil ar gyfer y masgiau ystlumod. Mae dau fath o fasgiau i'w creu. Un patrymog i'w liwio ac un y gallwch ei ddylunio a'i addurno'ch hun.

Gludwch y stensiliau i ddarnau o gerdyn tenau. Efallai gallech ddefnyddio pecyn grawnfwyd gwag?

Pan fydd y glud yn sych, torrwch yn ofalus o amgylch y siapiau. Gofynnwch i oedolyn am help.


Pan fydd y pedwar stensil wedi'u torri, dewiswch pa fwgwd yr hoffech ei greu gyntaf.

Defnyddiwch bensiliau, pinnau ffelt neu greonau i liwio'r darnau gwyn ar y mwgwd patrymog.



Pan fyddwch wedi gorffen lliwio, atodwch ben y mwgwd i'r gwaelod drwy roi rhywfaint o'r glud ar y rhannau canol ac ochr (fel y nodir) a gosod y darn uchaf dros y darn gwaelod. Gadewch i sychu.




Rhowch y glud yma



Rhowch y mwgwd arall at ei gilydd cyn addurno. Ychwanegwch liw, addurniadau disglair, plu, gemau... beth bynnag yr hoffech! Eich dyluniad chi, eich dewis chi.

I afael ynddo, ddefnyddiwch dâp selo i gysylltu'r ffon lolipop i'ch mwgwd, neu defnyddiwch linydd neu wllân a gofyn i rywun ei glymu'n ofalus o amgylch eich pen.





Argraffwch, gludwch i gerdyn tenau a thorrwch yn ofalus!